Sir Ddinbych Hygyrch




# Parc Gwledig Moel Famau

## Gwybodaeth am y Llwybr

Gellir dilyn taith gron o lonyddwch o amgylch rhai o lwybrau isaf Parc Gwledig Moel Famau o faes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae rhai esgyniadau / disgyniadau serth mewn mannau a hynny oherwydd amlinell naturiol y tir.

*Pellter:* 2.25 cilomedr / 1.4 milltir.

*Neilltuwch:* 1 awr.

*Arwyneb y Llwybr:* Carreg wedi'i gywasgu yn y rhan fwyaf o lefydd gyda rhai adrannau yn laswellt a phridd.

*Lled y Llwybr:* Lleiafswm o 50cm am rannau byrion.

*Grisiau:* Un set o 15 o risiau, 15-20 cm o uchder.

*Esgyniadau / disgyniadau:* Rhai esgyniadau a disgyniadau serth yn unol ag amlinell naturiol y tir.

## Gwybodaeth i Ymwelwyr

*Ar gyfer Llywio â Lloeren defnyddiwch:*

*I ddefnyddwyr Trafnidiaeth Gyhoeddus:* Ym misoedd yr haf, mae bws gwennol rhad ac am ddim yn rhedeg rhwng Parc Gwledig Loggerheads a Pharc Gwledig Moel Famau. Gweler **www.traveline-cymru.info** i gynllunio'ch siwrne.

*Parcio* ar gael ym maes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth. Mae tâl o £1 i gael mynediad i'r maes parcio.

*Toiledau* ar gael yn y bloc toiledau sy'n gyfagos i faes parcio'r Comisiwn Coedwigaeth.

*Cyfleusterau eraill:* Mae lluniaeth ar gael ym Mharc Gwledig Loggerheads, Tafarn y We Three yn Loggerheads a'r Druid Inn yn Llanferres.

**Dewch â dillad rhag y glaw a gwisgwch esgidiau addas. Defnyddiwch hufen haul ym misoedd yr haf.**

Gwybodaeth bellach: www.denbighshirecountryside.org.uk